World Heritage Sites

unesco

United Kingdom
National Commission
for UNESCO

# Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon



Taflen ffeithiau

30

Taflen ffeithiau 30

# Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon

**Mae Blaenafon yn dirwedd ddiwylliannol sy'n dangos mai De Cymru oedd prif gynhyrchydd haearn a glo'r byd yn y 19eg ganrif. Mae'r pyllau glo a mwyn sydd dal i'w gweld heddiw, y chwareli, system reilffordd gyntefig, ffwrneisi a seilwaith cymdeithasol y cymunedau, yn rhoi darlun cynhwysfawr o elfennau hanfodol y broses ddiwydiannu.**

## Beth sy'n gwneud y Dynodiad UNESCO hwn yn arbennig?

Mae Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn dystiolaeth eithriadol i'r grymoedd deinamig a ysgogodd y Chwyldro Diwydiannol sy'n cael ei adrodd trwy asedau treftadaeth yr ardal.

Mae safleoedd mawr fel Gwaith Haearn Blaenafon a Phwll Mawr, ynghyd â'r dirwedd ehangach gyda'i weddillion o gloddio mwynau, gweithgynhyrchu, trafnidiaeth ac aneddiadau, yn adrodd hanes y diwydiant haearn a glo a oedd yn flaenllaw yn ne Cymru yn y 19eg ganrif.

Mae'r gwaith haearn, sy'n dyddio'n ôl i 1789, yn cynnwys ffwrneisi o'r 18fed a'r 19eg ganrif, tai bwrw, odynau calchynnu, bythynnod gweithwyr a'r balans dŵr eiconig sy'n dyddio'n ôl i 1839. Yn y cyfamser, mae Pwll Mawr, y pwll dwfn olaf yn yr ardal, yn cyflwyno ymwelwyr â thaith unigryw drwy'r gweithfeydd tanddaearol, yn ogystal â chaniatáu iddynt archwilio'r adeiladau ar yr wyneb.

Ar yr un pryd, mae'r dref ac atgofion cymunedau coll ar draws y bryniau, yn adrodd hanes y bobl a yrrodd y chwyldro diwydiannol. Y buddsoddwyr, a fentrodd eu harian wrth ddechrau'r diwydiant haearn yn yr ardal, y gweithwyr a ddaeth â sgiliau yn ogystal â llafur corfforol i ddatblygu'r diwydiannau, a'r rhai a ddysgodd y gwersi bryd hynny cyn gadael i chwilio am heriau newydd, gan sefydlu diwydiant ar draws y byd.



World Heritage Sites

**Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon**

Siroedd: **Torfaen**



visitblaenavon.co.uk
blaenavon.tic@torfaen.gov.uk

Cynhyrchwyd y daflen ffeithiau hon gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO fel rhan o'i brosiect Lleol i Fyd-eang, a wnaed yn bosibl gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Made possible with Heritage Fund

UKNCFSWHS01v1.1 / DEC 2024